



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Ebrill 2023 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan, Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 April 2023 at 6.00pm
virtually and at the Meeting Room, Tŷ Cadwgan, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors: Siân Maehrlein (**yn y gadair** / in the chair), Clive Davies, Catrin Miles, Stephen Greenhalgh, John Adams-Lewis, Olwen Davies, Philippa Noble, David Maehrlein, Teresa Harries, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd/Translator**) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

5.00-6.00yh

Dr Nick Morgan, Uwch ymgynghorydd, Miller Research.

Rhannodd cynghorwyr eu barn ar sut y byddent yn nodweddu Aberteifi fel cymuned, pa mor dda y mae Aberteifi yn cael ei gwasanaethu gan asedau cymunedol, cyfradd ymgysylltu â'r gymuned, cysylltedd Aberteifi a'r cryfderau o ran cydnherthedd cymunedol. Gofynnwyd iddynt hefyd roi eu barn ar unrhyw wendidau yn y meysydd hyn a'r anallu i rai trigolion gael mynediad iddynt. Bydd yr ymchwil yn cael ei ddefnyddio i brofi gwerth mynegai newydd a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ar wytnwch cymunedol yng Nghymru.

5.00-6.00pm

Dr Nick Morgan, Senior Consultant, Miller Research.

Councillors shared their views on how they would characterise Cardigan as a community, how well served Cardigan is by community assets, the rate of engagement in the community, the connectedness of Cardigan and the strengths in terms of community resilience. They were also asked to provide their opinions on any weaknesses in these areas and the inability for some residents to access them. The research will be used to test the value of a new index developed by the Building Communities Trust on community resilience in Wales.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Siân Maehrlein, ei chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod. Ni chyhoeddwyd unrhyw faterion personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Deputy Mayor, Councillor Siân Maehrlein, welcomed her fellow councillors to the meeting. No personal matters were announced.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a’r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng Trystan Phillips, gwyliau; Marilyn Farmer, salwch; Nick Bolton, materion personol; Elaine Evans, materion personol; Richard Jones, oblygiadau gwaith.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Trystan Phillips, holidays; Marilyn Farmer, illness; Nick Bolton, personal matters; Elaine Evans, personal matters; Richard Jones, work obligations.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council’s Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein	<i>Cais am Rhodd / Grant application: Ysgol Uwchradd Aberteifi</i>
Y Cyng / Cllr Olwen Davies	<i>Cais am Rhodd / Grant application: Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi / Cardigan River & Food Festival</i>
Y Cyng / Cllr Philippa Noble	<i>Cais am Rhodd / Grant application: Cardigan Walks Community Interest Company</i>
Y Cyng / Cllrs Catrin Miles, Olwen Davies, John Adams-Lewis	<i>Cais am Rhodd / Grant application: Gŵyl Fawr Aberteifi</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 7 Mawrth 2023.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 7 Mawrth yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 7 March 2023.

The Councillors proposed that the 7 March 2023 council minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu’r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023.

- **Derbyniwyd diweddariad ynglŷn â maes chwarae Maesglas gan Geraint Roberts, Barcud yn dweud mai’r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol agos yw prosiectau Ffordd Dinbych-y-Pysgod, Stryd y Cei/Lôn y Farchnad a’r hen lyfrgell Deganau. Bydd y ddau fyngalo ym Maesglas sy’n aros i gael eu adeiladu yn lle y garejys yn cael eu trafod wrth edrych ar waith am y tair blynedd nesaf. Bydd Mr Roberts yn darganfod a yw'n opsiwn i'r tir gael ei brydlesu/gwerthu i'r Cyngor Tref cyn y dyddiad hwn.**
- **Derbyniwyd barn archwilio ddiamod gan Archwilio Cymru ar gyfer ein cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Rhoddwyd sylw i’r materion sy’n**

codi a'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn dilyn cwblhau'r adroddiad.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 7 March 2023.

- An update regarding the Maesglas play area was received from Geraint Roberts, Barcud stating that the priorities for the immediate future are the Tenby Road, Quay Street/Market Lane and old Toy library projects. The two bungalows to be erected in Maesglas on the garages site will be discussed when looking at works for the next three years. Mr Roberts will find out if it is an option for the land to be leased/sold to the Town Council before this date.
- An unqualified audit opinion has been received from Audit Wales for our accounts for the year ended 31 March 2022. Attention has been given to the matters arising and recommendations made by Audit Wales following the conclusion of the report.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Dim eitemau wedi'u nodi.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

No items noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A230112	Clive & Jayne Davies, 3 Newtown, Aberteifi, SA43 1LZ	<i>Mewnlenni estyniad llawr gwaelod i gefn yr eiddo / Infill ground floor extension to rear of property.</i>	<i>Dim gwrthwynebiad / No objection.</i>
A230150	Ian Davies, 30 Feidrfair, Aberteifi, SA43 1EB.	<i>Newid defnydd o ddeintyddfa i annedd breswyl, addasiadau mewnol, a gwaith cysylltiedig / Change of use from dental practice to residential dwelling, internal alterations, and associated works.</i>	<i>Dim gwrthwynebiad / No objection.</i>

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) **Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/04/23	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Ebrill/April)</i> <i>Band Lydan (Ebrill) / Broadband (April)</i>	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
04/04/23	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mawrth/March)</i>	A5	BACS	£1300.17(0.00)
04/04/23	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mawrth/March)</i>	A19	BACS	£198.00(33.00)
13/03/23	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	BACS	£35.00(0.00)
10/03/23	The Grosvenor - <i>Pryd i bwyllgor y carnifal / Meal for the carnival committee.</i>	B8	BACS	£172.15(28.69)
06/03/23	<i>CSC Trethi Annomestig / CCC Non-Domestic Rates 2023/24</i>	A9	BACS	£642.00(0.00)
09/03/23	Sharp – Hardware support charge and copies	A7	BACS	£58.76(9.79)
04/04/23	HMRC PAYE payment – January, February and March.	A16	BACS	£635.16(0.00)
28/03/23	Castell Aberteifi – Llogi ystafell/Room hire	A9	BACS	£105.00(17.50)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/03/2023	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£27.90
14/03/2023	<i>CSC/CCC - Wifi Licence Grant</i>	£3,383.82

a) **Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Mawrth 2023 / Financial Report to the end of March 2023.**

Mae'r adroddiad ariannol terfynol hyd ddiwedd y flwyddyn 2022-23 a'r taflen cysoni'r cyfrifon am y flwyddyn 2022-23 wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r Cynghorwyr.

The final financial report for the year 2022-23 and the annual reconciliation of the 2022-23 financial accounts were forwarded beforehand to all Councillors.

Cytunodd y Cyngor i gymeradwyo'r adroddiadau ariannol uchod / The council agreed to approve the above financial reports.

b) **Ystyried mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (GPoC) o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

Mae Cyngor Tref Aberteifi wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd:

Mae pob un o'r 14 cynghorwyr wedi'u hethol, gan fodloni'r rheol dwy ran o dair.

Mae'r Clerc yn dal Tystysgrif Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA) sy'n dangos y cymwysterau angenrheidiol.

Mae'r ddwy set ddiwethaf o gyfrifon wedi bod yn ddiamod ym marn Archwilydd Cyffredinol Cymru a derbyniwyd y set ddiweddaraf o gyfrifon gan y cyngor yn ystod y cyfnod o 12 mis yn diweddu ar y diwrnod y daw'r cyngor yn gyngor cymuned cymwys.

Penderfynodd y Cynghorwyr fabwysiadu'r statws Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol fel y manylir arno dan y Ddeddf uchod.

Consideration to adopt the General Power of Competence (GPoC) under the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Cardigan Town Council have met the eligibility criteria:

All 14 councillors have been elected, meeting the two thirds rule.

The Clerk holds The Certificate in Local Council Administration (CiLCA) demonstrating the necessary qualifications.

The last two set of accounts have been unqualified in the opinion of the Auditor General for Wales and the most recent set of accounts was received by the council during the period of 12 months ending on the day the council becomes and eligible community council.
Councillors resolved to adopt the General Power of Competence status as detailed under the above Act.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
401	<i>Cangen Polisi Clefyddau Anifeiliaid, Llywodraeth Cymru / Animal Disease Policy Branch, Welsh Government: Ymgynghoriad wedi'i lansio ar ein rheolau cofrestru newydd am holl geidwad adar ym Mhrydain Fawr / Consultation launched on new registration rules for all bird keepers in Great Britain.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 09/03/2023.</i>
402	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Feidrfair, Aberteifi - 20.00 - 06.00 on 29/03/2023 to 30/03/2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 09/03/2023.</i>
403	<i>OPCC Communication – Heddlu Dyfed-Powys Police: Bwletin Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 10/03/2023.</i>
404	<i>Neil Hemington - Prif Gynllunyydd, Llywodraeth Cymru / Chief Planner, Welsh Government: Polisi Cynllunio Cymru – Budd net ar gyfer bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau / Planning Policy Wales: Net benefit for biodiversity and ecosystems' resilience.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 10/03/2023.</i>
405	<i>Paul Edwards – Rhelwr Golygfa Stryd, CSC / Street scene manager CCC.</i>	<i>Dolen i dudalen casglu Sbwriel Gwirfoddolwyr a chadarnhad bod Llyfrgell Aberteifi yn ganolbwynt i gael mynediad at offer / Link to the Volunteer Litter picking page and confirmation that the Cardigan Library is a hub to access equipment.</i>
406	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Maesglas, Aberteifi - 07.30 on 13/03/2023 to 18.00 on 14/03/2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 13/03/2023.</i>
407	<i>Rod King – 20's Plenty for Us: Diolch am 20 / Thanks for 20: Zoom sessions and free sample packs.</i>	<i>Penderfynodd cynghorwyr i beidio â phrynu arwyddion na mynychu cyfarfod zoom / Councillors resolved not to purchase signage or to attend a zoom meeting.</i>
408	<i>Claire Turner, Naturewise Community Forest Garden: Diwrnod dathlu 18 Mawrth, sgysiau coed, teithiau a chawl am ddim / Celebration Day 18 March, free tree talks, tours and soup.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 14/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 14/03/2023.</i>
409	<i>Trish Lewis – Swyddog Gwirfoddoli / Volunteering Officer, CAVO: Gwobrau Gwirfoddoli CAVO Volunteer Awards 2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 14/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 14/03/2023.</i>
410	<i>Tools for Self-Reliance Cymru: Erthygl fer am yr elusen / Short article about the charity.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 15/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 15/03/2023.</i>
411	<i>Kate Ashbrook - Ysgrifennydd Cyffredinol, Cymdeithas Mannau Agored / General Secretary, The Open Spaces Society: Mannau agored a llwybrau - canllaw newydd i amddiffyn / Open spaces and paths - a new guide to protection.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 15/03/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 15/03/2023.</i>

412	Ellen Knapp - <i>Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt Canser yr Ysgyfaint / Lung Cancer Connect Service Manager: Gwybodaeth am wasanaeth cymorth cancer yr ysgyfaint / Information regarding a lung cancer support service.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 15/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/03/2023.
413	CSC <i>Adain Cau Ffydd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Dydd Sadwrn Barlys, Strydau amrywiol, Aberteifi / Barley Saturday, Various Roads, Cardigan - 13.30 to 16.00 on 29/04/2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 15/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/03/2023.
414	Richard James, George, Davies & Evans: <i>Clwb Rygbi Aberteifi - Prydles ar gaeau chwarae Brenin Siôr V / Cardigan RFC - Lease of King George V playing fields.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 16/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/03/2023.
415	<i>Datganiad Ysgrifenedig: Iechyd Digidol Cyngorau Cymuned a Thref (16 Mawrth 2023) gan Llywodraeth Cymru / Written Statement: Digital Health of Community and Town Councils (16 March 2023) by the Welsh Government.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 20/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/03/2023.
416	CSC <i>Adain Cau Ffydd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Nodyn cyfyngiad cyflymder dros dro 40mya ar yr A478 yn Aberteifi rhwng 09.00-17.00 ar 21/04/2023 / Temporary Speed Restriction of 40mph on the A478 in Cardigan between 09.00-17.00 on 21/04/2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 20/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/03/2023.
417	Gill Byrne, RAY Ceredigion – <i>Holi hawl cynnal sesiynau chwarae yn Aberteifi ar 1 Ebrill 2023 / Request for permission to hold play sessions in Cardigan on 1 April 2023.</i>	<i>Clerc wedi rhoi sêl bendith y cyngor / Clerk has given council approval.</i>
418	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Mawrth a Ebrill / Remote training sessions that are taking place in March and April.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 22/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/03/2023.
419	Nick Newland - <i>Papur briffio economaidd ac ecolegol ar Aber Afon Teifi / Economic and ecological briefing paper on the Teifi Estuary.</i>	<i>Penderfynwyd bod y Clerc yn ceisio ailsefydlu cyfarfod chwarterol ar gyfer yr holl randdeiliaid / It was resolved that the Clerk attempt to establish a quarterly meeting for all stakeholders.</i>
420	Nicola Powell – <i>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David: Digwyddiadau prosiect portalis / Portalis project events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 22/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/03/2023.
421	Janet Copeland - <i>Cais am fwy o raciau beiciau yn Aberteifi / Request for more bicycle racks in Cardigan.</i>	<i>Penderfynwyd anfon y cais ymlaen at CSC. Cynrychiolwyr y Sir i gefnogi'r cais mewn cyfarfodydd yn y dyfodol / It was resolved to forward the request to CCC. County representatives to support the request in future meetings.</i>
422	Beth Jenkins – <i>Rheolwr Prosiect Only Boys loud / Only Boys Aloud Project Manager: Cyflwyniad a gwybodaeth am brosiect Only Boys Aloud / Introduction and information regarding the Only Boys Aloud project.</i>	<i>Clerc i ymateb fod cyngorwyr yn hapus iawn fod bechgyn lleol yn cael y cyfle yma ac yn dymuno pob llwyddiant i'r côr yn y dyfodol / Clerk to respond that councillors are very happy that local boys have this opportunity and wish the choir every success in the future.</i>
423	Angharad Davies - <i>Pryderon ynghylch faint o faw cŵn yn Aberteifi / Concerns regarding the amount of dog fouling in Cardigan.</i>	<i>Penderfynwyd ymchwilio i sut mae CSC yn gosod y gosb am faw ci a gofyn i Gyngor Cymuned Ferwig rannu arfer da / It was decided to research how the penalty for dog fouling is applied by CCC and to ask Ferwig community council to share good practice.</i>
424	<i>Priffyrdd A Gwasanaethau Amgylcheddol, CSC / Highways & Environmental Services, CCC: Casgliadau Gwastraff y Pasg / Easter Waste Collections.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 27/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/03/2023.

425	Dana Jones – CSC/CCC: <i>Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol / Consultation on the Ethical Standards Framework and Code of Conduct.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/03/2023.
426	<i>Archwilio Cymru / Audit Wales: Nodyn cwblhau archwiliad / Audit Completion notice.</i>	<i>Gweler adroddiad y Clerc / See Clerk's report.</i>
427	<i>Swyddfa'r Wasg Ceredigion / Ceredigion Press Office: Ymgynghoriad Gwasanaethau Dydd / Day Services Consultation.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 30/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/03/2023.
428	Mick Antoniw AS/MS – <i>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad / Counsel General and Minister for the Constitution: Datganiad Ysgrifenedig gan Llywodraeth Cymru Papur Gwyn Diwygio Etholiadol / Written Statement on Electoral Reform White Paper.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 31/03/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/03/2023.
429	<i>Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen / Llangollen International Musical Eisteddfod: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
430	<i>Clwb Rhwyfo Aberteifi / Cardigan Rowing Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
431	The Welsh Air Ambulance Charitable Trust: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
432	<i>Cymdeithas Aredig Ceredigion: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.

d) Diweddariad ar y cynnydd i ailagor toiledau Cancery Lane.

Caniataodd cyfarfod rhwng y Cynghorydd Clive Davies, y Clerc, swyddogion CSC, yr heddlu a chyflenwyr gwasanaethau mynediad i'r toiledau i adolygu eu cyflwr. Mae'r Cynghorydd Davies yn aros am ddyfynbrisiau i wneud y gwaith angenrheidiol. Mae cais am grant yn cael ei baratoi ac mae ymholiadau ynglŷn â throsglwyddo perchnogaeth yn parhau. Bydd y cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu datblygu i safon gwrth-fandaliaeth a bydd cyfleuster talu yn cael ei osod.

Update on the progress to reopen Chancery Lane Toilets.

A meeting between Cllr Clive Davies, the Clerk, CCC officers, the police and service suppliers allowed entrance into the toilets to review their condition. Cllr Davies is waiting for quotes to carry out the necessary work. A grant application is being prepared and enquiries regarding ownership transfer are ongoing. The public conveniences will be developed to anti-vandalism standard and a payment facility will be installed.

e) Hen safle Ysbyty Aberteifi.

Dim diweddariad wedi'i gyflwyno.

Cardigan Hospital old site.

No update presented.

f) Palmant Rhyd y Fuwch.

Mae cynghorwyr yn bryderus bod lled y palmant yn beryglus a phenderfynwyd gofyn i'r gwrych gael ei dorri'n ôl ac ymestyn y palmant.

Rhyd y Fuwch pavement.

Councillors are concerned that the width of the pavement is dangerous and resolved to request that the hedgerow is cut back and the pavement extended.

g) Trefnu dyddiad cyfarfod gwerthusiad blynyddol y Clerc.

Penderfynwyd y byddai'r Is-bwyllgor Personél yn ymuno â'r Clerc ar gyfer ei gwerthusiad am 7.00pm ddydd Iau 27 Ebrill.

Arrange a date for the Annual Appraisal of the Clerk meeting.

It was resolved the Personnel Sub-Committee would join the Clerk for her appraisal at

7.00pm on Thursday 27 April.

h) Ceisiadau am gymorth ariannol / Applications for financial aid:

Enw'r Sefydliad/Clwb/Elusen Name of Organisation/Club/Charity	Derbyniwyd Cyfrifon Accounts received	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Ysgol Uwchradd Aberteifi	Do/Yes	£0	£0	£1,944	£1000
Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi Cardigan River & Food Festival	Do/Yes	£0	£0	£500	£500
Cardigan Walks Community Interest Company	Do/Yes	£0	£0	£0	£0
Clwb Rhwyfo Aberteifi Cardigan Rowing Club	Do/Yes	£1000	£0	£0	£500
Ambiwlans Awyr Cymru / Welsh Air Ambulance	Do/Yes	£0	£500	£500	£500
Cymdeithas Aredig Ceredigion	Do/Yes	£0	£0	£0	£0
Gŵyl Fawr Aberteifi	Do/Yes	£0	£0	£0	£2500
Cardigan Classic Car Club	Do/Yes	£0	£0	£0	£750
Sadwrn Barlys/Barley Saturday	Do/Yes	£0	£0	£1000	£1000
CFFI Ceredigion YFC	Naddo/No	£0	£0	£0	£0
Eisteddfod Llangollen 2022	Naddo/No	£0	£0	£0	£0
Clarby Warriors Pan Disability Football Squad	Do/Yes	£0	£0	£0	£100

Pob grant a ddyfernir o dan Ddeddf Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (GPoC) Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

All grants awarded under the General Power of Competence (GPoC) Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

Darllen yng ngwasanaeth Sul y Pasg yn Eglwys y Santes Fair 5.00pm 9 Ebrill, croeso i bob cynghorydd fynychu.

Mayors' Diary.

Reading at the Easter Sunday service at St Mary's Church 5.00pm 9 April, all councillors welcome to attend.

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Mae'n braf gweld bod y ffordd i mewn i'r Maesglas wedi'i hailwynebu â tharmac newydd. Mae e-byst yn amlygu'r angen am dwmpathau cyflymder ar y ffordd wedi'u hanfon at CSC ynghyd â phryderon am rai pyllau mawr sydd eisoes yn ffurfio ar yr wyneb newydd.

- Roedd yr hyfforddiant Dementia ac Awtistiaeth a fynychais yn ddiweddar yn ddefnyddiol a diddorol iawn. Cefais fy synnu gan faint o wybodaeth newydd a ddysgais o'r hyfforddiant dementia, gan fy mod eisoes yn gweithio gyda chleientiaid sy'n byw gyda'r salwch hwn.
- A fydddech cystal â chefnogi'r artist lleol, Maximilian Victor Self, sioe unigol, ar ôl marwolaeth, sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd yn Oriel Gelf Canfas, mae ei waith yn rhagorol.
- Diolch Cyng Teresa Harries am drefnu helpa Wyau Pasg gymunedol wych ym Maesglas penwythnos diwethaf. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a mwynheais yn fawr iawn beirniadu cystadleuaeth tynnu llun Cwningen y Pasg. Daeth nifer dda iawn i'r digwyddiad.
- Mae pwyllgor y Carnifal yn cynnal noson Bingo codi arian yng Nghlwb Bowlio Aberteifi am 7.00pm nos Iau 6 Ebrill, byddai'n wych pe gallech ymuno â ni.
- Yn olaf, rwy'n falch iawn o gyhoeddi bod David a minnau'n mam-gu a thad-cu unwaith eto, ganed ein chweched ŵyr yr wythnos diwethaf ac ni allem fod yn hapusach.

Clr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- It is pleasing to see that the road into Maesglas has been resurfaced with new tarmac. Emails highlighting the need for speed humps on the road have been forwarded to CCC together with concerns over some large puddles which are already forming on the new surface.
- The Dementia and Autism training that I recently attended was very useful and interesting. I was surprised how much new knowledge I learned from the dementia training, as I already work with clients living with this illness.
- Please support the local artist Maximilian Victor Self, posthumous solo show, currently being exhibited at the Canfas Art Gallery, his work is outstanding.
- Thank you, Clr Teresa Harries, for organising a great community Easter Egg hunt in Maesglas last weekend. The event was a great success and I thoroughly enjoyed judging the Easter Bunny drawing competition. The event was very well attended.
- The Carnival committee are holding a fund-raising Bingo evening at Cardigan Bowling Club at 7.00pm on Thursday 6 April, it would be great if you could join us.
- Lastly, I am very proud to announce that David and I are grandparents again, our sixth grandchild was born last week and we could not be happier.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Bu cynnydd mawr yn nifer y cwynion a dderbyniwyd am faw cŵn yn y dref a'r cyffiniau, ac mae'r mater yn dod yn broblem ddifrifol. Byddaf yn cefnogi'r cais am finiau cŵn newydd mewn cyfarfodydd sirol pryd bynnag y bo modd.
- Cysylltais CLIC am y slabiau palmant a oedd wedi diflannu ar ôl i Dŵr Cymru wneud atgyweiriadau – atebon nhw “y mae'r gwaith atgyweirio a wnaed ar hyd Stryd Fawr, Aberteifi gan Dŵr Cymru, dim ond dros dro, mae hyn oherwydd bod angen eu gwasanaethau mewn mannau eraill ar gyfer argyfwng. Mae Arolygydd Gwaith Stryd CSC wedi bod mewn cysylltiad â Dŵr Cymru ac wedi cael gwybod eu bod yn rhaglennu gwaith i'w gwblhau ar hyd y Stryd Fawr i ailosod y slabiau. Dim ateb am y rhai sydd ar goll yn Neuadd y Dref eto”
- Mynychais fws Profiad Awtistiaeth a chwrs y mis hwn ac roedd yn brofiad arbennig o dda a byddwn yn ei argymhell i unrhyw un. Parhaodd y cwrs am tua 3 awr gan gynnwys y profiad bws gwirioneddol lle cawsoch brofiad o orlwytho synhwyraidd wedi'i ysgogi.
- Codi sbwriel ardderchog fore Sul, gyda Geraint John yn ymuno â ni am y bore. Mae Geraint wedi bod yn glanhau arfordir Cymru ers mis Mai llynedd, ac mae ganddo dudalen Facebook o'r enw Gwarchodwyr Arfordir Cic os hoffai unrhyw un gael golwg.

- **Bellach mae gorsaf atgyweirio beiciau yn y lloches feiciau ger Theatr Mwldan. Gofynnais am un o'r rhain ar ôl ei weld fis Awst diwethaf, ac mae'n dda nawr ei fod wedi cyrraedd o'r diwedd. Mae'n drueni na chawsom wybod ei fod wedi'i osod mewn gwirionedd yn hytrach na digwydd ar lun ar gyfryngau cymdeithasol, ond o leiaf mae yma nawr, ac yn cael ei ddefnyddio.**

Roedd y Cyng Evans yn absennol o'r cyfarfod ond roedd y Cynghorwyr yn dymuno nodi cais i ddiwygio'r Grŵp Amddiffyn rhag Llifogydd. Mae'r problemau a gafwyd 10 mlynedd yn ôl i'w gweld yn ail-ddigwydd ac roedd cefnogaeth i'r Cynghorydd Sir ail sefydlu'r grŵp gan gynghorwyr sy'n byw yn y ward hon.

Gofynnodd y Cynghorwyr hefyd i'r Cynghorydd Evans ofyn pam na ddygwyd cais cynllunio A220881 ar gyfer Penny Pinchers, 15 Pendre, Aberteifi, i'r pwyllgor oherwydd y nifer fawr o wrthwynebiad lleol yn y gymuned, gwrthododd y rhan fwyaf o gynghorwyr gefnogi'r cais hwn y llynedd. Pasiwyd y cais yn ddiweddar heb unrhyw drafodaeth ar lefel pwyllgor er i nifer o bryderon gan drigolion gael eu hamlygu i'r adran gynllunio. (Datganodd y Cyng Evans ddiddordeb ar y cais).

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- There has been a large increase in the number of complaints received about dog mess in and around town, the issue is becoming a serious problem. I will support the request for new dog bins in county meetings whenever possible.
- Contacted CLIC about the paving slabs that had disappeared after Welsh Water did repairs - they replied "the repairs carried out along High Street, Cardigan is only a temporary reinstatement by Welsh Water, this is due to their services being required elsewhere for an emergency. CCC's Street Works Inspector have been in contact with Welsh Water and have been advised that they are programming works to be completed along High Street to reinstall the slabs. No reply about the ones missing on the Guild Hall yet"
- I attended the Autism Experience bus and course this month and it was a really good experience and I would recommend it to anyone. The course lasted for about 3 hours including the actual bus experience in which you experienced a stimulated sensory overload.
- Excellent litter pick on Sunday morning, with Geraint John joining us for the morning. Geraint has been cleaning the coastline of Wales since May of last year, and has a Facebook page called Coastline Guardians Cic if anyone would like a look.
- There is now a bike repair station at the cycle shelter by Theatre Mwldan. I asked for one of these after seeing it last August, and its good now that it has finally arrived. It's a pity we weren't informed that it had actually been installed rather than happening upon a picture on social media, but at least it's here now, and being used.

Cllr Evans was absent from the meeting but Councillors wished to note a request for the Flood Defence Group to be reformed. The problems experienced 10 years ago seem to be reappearing and there was support for the County Councillor to re-establish the group by councillors who live in this ward.

Councillors also requested that Cllr Evans ask why the planning application A220881 for Penny Pinchers, 15 Pendre, Aberteifi, was not brought to committee due to the large amount of local opposition in the community, most councillors declined to support this application last year. The application was recently passed with no discussion on committee level despite several concerns from residents being highlighted to the planning department. (Cllr Evans declared an interest on the application).

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**

Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.

- ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.

- iii. **Maes Sgrialu / Skateboard Park**

Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.

- iv. **Cyffredinol / General**

Wrth i'r potiau blodau o amgylch y dref ddirywio, byddant yn cael eu hail-lenwi â blodau'r haf.

As the flower pots around the town deteriorate, they will be refilled with summer flowers.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf / Items for the next Agenda.

Diweddariad gan Caroline Wilson, Green Dragon Wheels2work / Update from Caroline Wilson, Green Dragon Wheels2work.

Adeiladau lleol i reoli sbwriel y tu allan i'w hadeiladau / Local premises to control rubbish outside their buildings.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.00pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date